Prifysgol Abertawe
Swansea University

# Disgrifiad Swydd: Gwyddonydd Data - Ymchwil Data Iechyd y DU

| | |
|---|---|
| **Coleg/Ysgol:** | Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe |
| **Teitl y Swydd:** | Gwyddonydd Data |
| **Adran/Pwnc:** | Yr Ysgol Feddygaeth |
| **Cyflog:** | Gradd 07 £33,882 i £37,999 y flwyddyn ynghyd â buddion pensiwn USS |
| **Oriau gwaith:** | 35 awr yr wythnos |
| **Contract:** | Cyfnod penodol tan 31 Rhagfyr 2027 |
| **Lleoliad:** | Lleolir y swydd hon ar Gampws Parc Singleton. |

| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | Er mwyn cyflawni ei huchelgais cynaliadwy o fod ymysg y 30 o brifysgolion gorau, mae angen gweithlu gwasanaethau proffesiynol ar Brifysgol Abertawe â'r sgiliau amrywiol i sicrhau y gall gyflawni rhagoriaeth drwy systemau a phrosesau effeithlon ac effeithiol sy'n manteisio ar ddatblygiadau technolegol.<br><br>Rydym yn chwilio am wyddonydd data i gyfrannu'n rhagweithiol at ymchwil arloesol gan ddefnyddio data amgylcheddol a gedwir o fewn SAIL.<br>Mae'r swydd hon yn cynnwys cyfrannu at weithgareddau cefnogi ymchwil, prosiectau ymchwil i iechyd a chyd-ddatblygu offer ac isadeiledd i hwyluso gwaith ymchwil. Bydd deiliad y swydd yn aelod o Ymchwil Data Iechyd y DU Cymru, tîm rhyngddisgyblaethol sy'n defnyddio dulliau arloesol i ymchwilio'r maes hwn ymhellach, er mwyn manteisio i'r eithaf ar y data hyn i wella iechyd a lles y boblogaeth. |
| **Gwybodaeth gefndirol** | Diben y rôl hon yw cefnogi rôl Prifysgol Abertawe o fewn Ymchwil Data Iechyd y DU, yn benodol y Rhaglen Sbarduno Ymchwil sy'n canolbwyntio ar benderfynyddion cymdeithasol ac amgylcheddol iechyd dan arweiniad yr Athro Richard Fry.<br><br>Bydd penderfynyddion cymdeithasol ac amgylcheddol y Rhaglen Sbarduno Ymchwil Iechyd yn gwella galluoedd y DU i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd drwy greu adnoddau data cysylltiedig, pwerus i lywio polisi, iechyd cyhoeddus a gwasanaethau. Bydd yn darparu asedau data iechyd 'FAIR', cyson sy'n gallu cydweithio ar draws y DU, sy'n cynnwys carfannau gweinyddol wedi'u recriwtio sy'n gysylltiedig â data cymdeithasol ac amgylcheddol eglur iawn ar lefel y cartref a'r aelwyd. |
| **Prif Ddiben y Swydd** | 1. Cyfrannu at brosiectau ymchwil o fewn grŵp prosiect Ymchwil Data Iechyd y DU, gan gynnwys:<br>• cyfrannu at gynllunio tîm a rheoli<br>• Dylunio Ymchwil<br>• Paratoi Data<br>• Dadansoddi ystadegol<br>• Ysgrifennu canlyniadau i'w cyhoeddi<br>2. Cyfrannu at weithgareddau cymorth SAIL, gan gynnwys darparu data i brosiectau, adolygu allbynnau prosiect, ymateb i ymholiadau ymchwilwyr am SAIL a helpu ymchwilwyr i ddatblygu syniadau prosiectau.<br>3. Cyfrannu at ddatblygu meddalwedd a dulliau newydd ar gyfer gweithio gyda data. |
| **Dyletswyddau Cyffredinol** | 4. Cyfrannu'n rhagweithiol at ymchwil a chynnal ymchwil, gan gynnwys casglu, paratoi a dadansoddi data, meddwl am syniadau gwreiddiol a chyflwyno canfyddiadau.<br>5. Paratoi adroddiadau, drafftio patentau a phapurau sy'n disgrifio canlyniadau'r ymchwil, boed yn gyfrinachol neu i'w cyhoeddi.<br>6. Dangos hunangymhelliant, a defnyddio eich menter eich hun er mwyn dod o hyd i ffyrdd addas o fynd i'r afael â heriau a gofyn am arweiniad yn ôl yr angen |

| | |
|---|---|
| | 7. Rhyngweithio'n gadarnhaol ac yn broffesiynol â chydweithredwyr a phartneriaid eraill, yn y Coleg ac mewn mannau eraill yn y Brifysgol a'r tu hwnt fel y bo'n briodol, megis ym maes diwydiant/masnach, sefydliadau cyhoeddus, ysbytai a'r byd academaidd.<br>8. Cyfrannu at faterion trefniadol y Coleg i'w helpu i weithredu'n ddidrafferth a helpu i godi ei broffil ymchwil allanol.<br>9. Bod yn ymwybodol o ddatblygiadau yn y maes, o safbwynt technegol, penodol a chyffredinol, a'u goblygiad ehangach ar gyfer maes y ddisgyblaeth, cymwysiadau masnachol a'r economi wybodaeth.<br>10. Gweithredu fel cynrychiolydd neu aelod o bwyllgorau yn ôl y gofyn, gan achub ar y cyfle i ehangu profiad proffesiynol personol.<br>11. Dangos eich datblygiad proffesiynol eich hun a darparu tystiolaeth ohono, gan nodi anghenion datblygu drwy gyfeirio at Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr Vitae, yn enwedig o ran y cyfnod prawf, Adolygiadau Datblygiad Proffesiynol a chymryd rhan mewn digwyddiadau hyfforddiant.<br>12. Cynnal a gwella cysylltiadau â'r sefydliadau proffesiynol a chyrff cysylltiedig eraill.<br>13. Ufuddhau i brotocolau arfer gorau wrth gynnal a chadw cofnodion ymchwil, fel y nodir gan ganllawiau rheoli cofnodion sefydliadau addysg uwch a'r Cynghorau Ymchwil. Mae hyn yn cynnwys gwneud yn siŵr bod cofnodion llyfrau log prosiectau yn cael eu cyflwyno i'r Brifysgol/y Prif Ymchwilydd ar ôl gorffen y gwaith.<br>14. Cyfrannu'n llawn at bolisïau Galluogi Perfformiad ac Iaith Gymraeg y Brifysgol.<br>15. Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn arferion gwaith a chynnal perthnasoedd gweithio cadarnhaol.<br>16. Arwain wrth wella perfformiad iechyd a diogelwch yn barhaus drwy ddealltwriaeth gadarn o broffil risg a datblygu diwylliant iechyd a diogelwch cadarnhaol.<br>17. Unrhyw ddyletswyddau eraill y gellir eu disgwyl o fewn diffiniad y radd yn unol â chyfarwyddyd Pennaeth y Coleg/Adran neu gynrychiolydd a enwebwyd.<br>18. Sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o unrhyw broses benderfynu, drwy sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Rheoli Risg y Brifysgol |
| **Gwerthoedd y Gwasanaethau Proffesiynol** | Mae'r holl feysydd Gwasanaethau Proffesiynol ym Mhrifysgol Abertawe yn gweithredu yn ôl cyfres ddiffiniedig o Werthoedd Craidd - Gwerthoedd Gwasanaethau Proffesiynol - a disgwylir i bawb ddangos ymrwymiad i'r gwerthoedd hyn o'r adeg cyflwyno cais am swydd i gyflawni eu rolau o ddydd i ddydd. Mae ymrwymiad i'n gwerthoedd ym Mhrifysgol Abertawe yn ein cefnogi wrth hyrwyddo cydraddoldeb ac wrth werthfawrogi amrywiaeth er mwyn defnyddio'r holl ddoniau sydd gennym.<br><br>**Rydym yn Broffesiynol**<br>Rydym yn ymfalchïo mewn defnyddio ein gwybodaeth, ein sgiliau, ein creadigrwydd, ein gonestrwydd a'n doethineb i ddarparu gwasanaethau arloesol, effeithiol ac effeithlon ynghyd ag atebion o safon ardderchog<br><br>**Rydym yn Cydweithio**<br>Rydym yn ymfalchïo mewn amgylchedd gweithio rhagweithiol a chydweithredol o gydraddoldeb, ymddiriedaeth, parch, cydweithio a her, i ddarparu gwasanaethau sy'n ceisio rhagori ar anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid.<br><br>**Rydym yn Ofalgar**<br>Rydym yn cymryd cyfrifoldeb am wrando ar ein myfyrwyr, ein cydweithwyr, ein partneriaid allanol a'r cyhoedd, eu deall ac ymateb yn hyblyg iddynt, fel bod pob cysylltiad rhyngddynt a ni yn brofiad personol a chadarnhaol.<br><br>Mae ymrwymiad i'n gwerthoedd ym Mhrifysgol Abertawe yn ein cefnogi wrth hyrwyddo cydraddoldeb ac wrth werthfawrogi amrywiaeth er mwyn defnyddio'r holl ddoniau sydd gennym. |

| | |
|---|---|
| **Manyleb Person** | **<u>Meini Prawf Hanfodol:</u>**<br><br>**Gwerthoedd:**<br>• Tystiolaeth o ymfalchïo mewn darparu gwasanaethau ac atebion proffesiynol<br>• Y gallu i gydweithio mewn amgylchedd o gydraddoldeb, ymddiriedaeth a pharch i ddarparu gwasanaethau sy'n ceisio rhagori ar anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid.<br>• Tystiolaeth o ymagwedd ofalgar at eich holl gwsmeriaid, gan sicrhau profiad personol a chadarnhaol.<br><br>**Cymwysterau:**<br>• Gradd neu brofiad cyfwerth mewn disgyblaeth berthnasol.<br><br>**Profiad:**<br>1. Profiad sylfaenol o ysgrifennu côd neu gyfrannu at ddatblygu meddalwedd mewn iaith raglennu uwch.<br>2. Profiad sylfaenol o weithio gyda setiau mawr o ddata.<br><br>**Gwybodaeth a Sgiliau:**<br>3. Diddordeb mewn ymgysylltu a chyfrannu at ysgrifennu a chyhoeddi papurau ymchwil, yn enwedig cyfnodolion a adolygir yn bennaf.<br>4. Tystiolaeth o'r gallu i gynnal ymchwil yn unol ag amcanion y prosiect<br>5. Tystiolaeth o sgiliau cynllunio i gyfrannu at y prosiect ymchwil<br>6. Ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus<br><br>**Yr Iaith Gymraeg:**<br>Lefel 1 – ychydig<br><br>Am ragor o wybodaeth am Lefelau'r Iaith Gymraeg, gweler tudalen we'r Asesiad o Sgiliau Iaith Gymraeg, sydd ar gael yma.<br><br>**<u>Meini Prawf Dymunol:</u>**<br>7. Profiad o weithio yn unol â dulliau datblygu meddalwedd, yn enwedig methodolegau ystwyth.<br>8. Bod yn gyfarwydd i raddau ag ymchwil epidemiolegol a dadansoddiadau ystadegol<br>9. Profiad o raglennu mewn SQL, R, a/neu Python. |
| **Gwybodaeth Ychwanegol** | Ymholiadau anffurfiol: Croesewir ymholiadau anffurfiol a dylid eu cyfeirio at yr Athro Richard Fry; e-bostiwch - r.j.fry@abertawe.ac.uk |